CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 12, 2016 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 14, 2016

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 14, 2016

Eitem 4. Eitem 5, Eitem 10.c. Mae Peredur Jenkins ac Elfed ap Gomer wedi bod yn gohebu â Phrif Beiriannydd Meirionnydd ac mae ynta wedi bod yn gohebu â swyddog yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r mater.

Eitem 8.ch. Llythyr ateb (21/6/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref am y gost.

Llythyr (27/6/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod maent yn caniatau Cynghorau Cymuned a Thref i lenwi biniau cyn belled bod y contractwr yn cydymffurfio gyda Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991. Bydd y gost i lenwi bin rhwng £45 a £57 ac mae angen ystyried costau llafur, thrafnidiaeth ayyb; mae'r costau wedi eu selio ar brisiau gwmniau adeiladol lleol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am bin halen bydd yn cael ei lenwi gan eraill.

Cost Cyngor Gwynedd i barhau rhoi y gwasanaeth yn £80 (clwstwr o finiau, isafswm o 3). (Mae 8 bin halen yn y gymuned).

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/5/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2016/18. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £9.029 yr awr ar bwynt SCP17, h.y. £9.029 x 12 (oriau) x 12 (misoedd) = £1,300.18.

Cyflog newydd fydd £9.120 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.120x 12 x 12 = £1,313.28.

b. Bil (27/06/2016) am £350 oddi wrth John A. Owen, Caegoronwy i ail agor bedd.

c. Derbyniwyd (1/7/2016) siec am £550.00 (claddedigaeth bellach) oddi wrth D.H. Gabriel. Taliad at Paul Leslie Smalley.

ch. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2016: £7,753.12.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais cynllunio NP5/65/336A. Mae'r Awdurdod yn caniatau Cynllun trydan dwr 8kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae ac adeilad tyrbin, gosod pibell o dan y ddaear, a chyswllt wedi ei gladdu i'r grid trydan. Afon Wnin, Cwm yr Wnin, Llanelltyd.

ii. Cais cynllunio NP5/65/124D/PE/RLR. Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tŷ menter gwledig ac adeilad fferm. Tir ger Tŷ Pwmp, Lanelltyd. Mae'r cais wedi ei dynnu yn ol gan yr ymgeisydd.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Cydymffurfio a'r Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion), 1992.

Cais cynllunio NP5/65/AD340. Mae'r Awdurdod yn caniatau Cais am ganiatâd ar gyfer hysbysfwrdd. Maes Parcio'Fiddler's Elbow, Bontddu.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr oddi wrth Shelter Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

b. Llythyr (22/06/2016) oddi wrth Ombwdsmon gyda chopi o Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn 2015/16.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc